Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 16.07.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen 'Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir' yn darparu canllawiau a chymorth defnyddiol ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr. Rydym yn croesawu'r ffaith fod y cwricwlwm wedi cael ei lunio ar y cyd ag ymarferwyr ac yn cefnogi addysg gynnar o ansawdd uchel ar gyfer ein plant. Caiff yr 'ethos tîm' ei amlygu'n dda gyda'r pwyslais ar werthfawrogi gwaith ymarferwyr yn y sector addysg pwysig iawn hwn. Mae'r ddogfen yn adeiladu ar arfer dda bresennol ac yn cysylltu'n dda â chanllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'r pedwar diben. Rydym yn falch fod y ddogfen 'Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir' yn cydnabod bod pob plentyn yn unigryw ac yn datblygu ar wahanol gyflymder. O'r herwydd, rydym yn gwerthfawrogi'r pwyslais a roddir ar ymarferwyr yn defnyddio'r cwricwlwm ochr yn ochr â'u gwybodaeth a'u profiad i ddiwallu anghenion plant unigol. Mae'r cyfeiriadau mynych at addysgeg effeithiol trwy gydol y ddogfen yn ddefnyddiol, felly hefyd y 'pwyntiau ar gyfer myfyrio arnynt' i gefnogi eu datblygiad proffesiynol. Mae'r cwestiynau myfyriol yn ffordd ddefnyddiol i ymarferwyr ystyried eu medrau eu hunain a nodi ffyrdd o wella eu harfer. Gellid efelychu hyn yn well mewn adrannau eraill o'r ddogfen i sicrhau cysondeb gwell.

Rydym o'r farn fod y ddogfen yn amlinellu disgwyliadau clir ynghylch addysgeg, arsylwadau ac asesu a rôl yr oedolyn galluogi. Yn ychwanegol, mae'r cysylltiadau a wneir rhwng y cwricwlwm a datblygiad plant yn darparu pwyntiau cyfeirio defnyddiol ar gyfer ymarferwyr i gefnogi eu cynllunio. Er enghraifft, gall ymarferwyr ddefnyddio'r wybodaeth am drefniannau i arsylwi a chynllunio profiadau dysgu i ddatblygu medrau plant. Rydym yn falch o weld bod y ddogfen yn cyfeirio at y cyswllt rhwng y llwybrau datblygiadol a rolau'r ymarferwr, yr amgylchedd a phrofiadau.

Mae'r ddogfen yn esbonio diben y llwybrau datblygiadol yn dda ac yn gwneud cysylltiadau priodol â datblygiad plant a 'Cham dilyniant 1' y Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn cytuno, yn gyffredinol, bod y llwybrau datblygiadol wedi eu seilio ar egwyddorion allweddol datblygiad plant sy'n cefnogi cyflwyno cwricwlwm sy'n ddatblygiadol briodol ar gyfer plant o bob oedran, gallu a dawn. At ei gilydd, mae'r llwybrau datblygiadol yn disgrifio'r sefyllfa ar lefel sy'n ddatblygiadol briodol ar gyfer y dysgu a ddisgrifir yn y 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ar gyfer y chwe maes dysgu. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw'r bwriad yn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig am Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, sef: "sicrhau bod dysgwyr, fel dinasyddion Cymru ddwyieithog mewn byd amlieithog, yn gallu defnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol" yn cael ei adlewyrchu'n ddigon cryf nac eglur. Teimlwn y gellid cryfhau hyn ymhellach, er enghraifft trwy gynnwys cyfeiriad uniongyrchol at ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'r Gymraeg ar draws yr holl lwybrau, ac yn enwedig y llwybrau 'Perthyn' a 'Chyfathrebu'. Yn ychwanegol, nid yw fersiwn Gymraeg y ddogfen mor hawdd i'w darllen â'r fersiwn Saesneg, ac mae'n defnyddio terminoleg nad yw ymarferwyr efallai mor gyfarwydd â hi. Gallai geirfa neu ddolenni at ddogfennau hyfforddi Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector helpu ymarferwyr i ddeall gwir ystyr rhai termau technegol neu eirfa academaidd.

Credwn fod y ddogfen, ac yn arbennig yr adran ar fedrau trawsgwricwlaidd, yn ei gwneud yn glir fod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn fedrau hanfodol ar draws y cwricwlwm cyfan, a dylid eu hymgorffori'n gadarn mewn arferion. Mae'r datganiadau cynyddrannol sy'n arwain at gam dilyniant 1 yn debygol o gael eu croesawu gan ymarferwyr. Bydd hyn yn eu helpu i ddeall sut mae plant yn datblygu medrau penodol dros gyfnod ac yn cefnogi eu cynllunio eu hunain. Fodd bynnag, teimlwn o bryd i'w gilydd

| |
|---|
| y dylid rhoi ystyriaeth bellach i gryfhau camau cynyddrannol sy'n arwain at gam dilyniant 1, yn enwedig o ran y Gymraeg.<br><br>Yn gyffredinol, nid yw dogfen y cwricwlwm yn rhoi digon o bwyslais ar ddatblygu'r iaith Gymraeg na'r dimensiwn Cymreig. Nid yw'n cyfeirio at bolisïau pwysig fel gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg 2050 a sut byddai'r cwricwlwm yn helpu cyflawni ei thargedau uchelgeisiol. Rydym o'r farn nad yw'r ddogfen yn rhoi digon o ystyriaeth i wahanol gyd-destunau datblygu'r Gymraeg ym mhob ardal o Gymru, er enghraifft defnyddio technegau trochi i ddatblygu medrau Cymraeg plant o gartrefi Saesneg yn bennaf. Hefyd, gallai fod yn fuddiol i ddarparu cyfleoedd i ymarferwyr fyfyrio ar eu medrau Cymraeg eu hunain. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n gweithio ym maes cefnogi cyflwyno addysg mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir, neu'n ei gefnogi?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |

i) Os ydw, ym mha fath o leoliad / sefydliad ydych chi'n gweithio? (Os na, parhewch i iii isod.)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Meithrinfa ddydd breifat | ☐ | Sefydliad ymbarél | ☐ |
| Cylch chwarae | ☐ | Trydydd sector | ☐ |
| Cyn-ysgol | ☐ | Darparwr hyfforddiant | ☐ |
| Cylch Meithrin | ☐ | Llywodraeth | ☐ |
| Awdurdod lleol | ☐ | Corff rheoleiddio (yn cynnwys arolygiaeth) | ✓ |
| Consortiwm rhanbarthol | ☐ | Arall (nodwch) | ☐ |

ii) Beth yw eich prif rôl?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arweinydd | ☐ | Swyddog datblygu | ☐ |
| Ymarferwr | ☐ | Datblygu polisi | ☐ |
| Athro ymgynghorol y blynyddoedd cynnar (neu gyfwerth) | ☐ | Aelod o bwyllgor rheoli | ☐ |
| Arolygydd | ✓ | Gwirfoddolwr | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymgynghorydd | ☐ | Arall (nodwch) | ☐ |

iii) Os nad ydych chi'n gweithio ym maes cyflwyno addysg mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir, neu'n ei gefnogi, ym mha rinwedd hoffech chi ddarparu adborth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | ☐ | Plentyn neu berson ifanc (o dan 18) | ☐ |
| Ymarferwr mewn lleoliad a ariennir nas cynhelir | ☐ | Myfyriwr / academydd | ☐ |
| Rhiant / gofalwr | ☐ | Arall (nodwch): | ☐ |
| Oedolyn sy'n 18 oed ac yn hŷn (nid rhiant na gofalwr) | ☐ | | |

iv) Ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ |
|---|---|---|---|

**Os 'ydw', nodwch.**

| |
|---|
| Estyn |

**Cwestiwn 2** – I ba raddau y bydd y cwricwlwm hwn yn cefnogi cynllunio effeithiol mewn lleoliadau a ariennir nas cynhelir?

| Anghefnogol iawn | Ychydig yn anghefnogol | Ddim yn gefnogol nac yn anghefnogol | Ychydig yn gefnogol | Cefnogol iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Teimlwn y bydd y cwricwlwm yn cefnogi cynllunio effeithiol ar gyfer darpariaeth sy'n adlewyrchu'r pedwar diben. Rydym yn croesawu'r ffocws cryf ar unigoliaeth ac anghenion pob plentyn, wedi ei wreiddio mewn gwybodaeth drylwyr am ddatblygiad plant, fel man cychwyn ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm. Rydym yn teimlo bod y ddogfen yn amlinellu disgwyliadau clir ynghylch addysgeg, arsylwadau ac asesu a rôl yr oedolyn galluogi. Mae'r llwybrau datblygiadol yn annog ymarferwyr i gynllunio darpariaeth sy'n briodol ar gyfer cam datblygu'r |

| |
|---|
| dysgwyr. At ei gilydd, rydym yn meddwl y dylai hyn gynorthwyo ymarferwyr i gynllunio i ddatblygu medrau plant yn gyfannol mewn cyd-destunau priodol. Teimlwn y bydd y camau cynyddrannol tuag at ddatblygu'r medrau trawsgwricwlaidd yn helpu ymarferwyr i nodi'r hyn y dylent gynllunio i'w wneud i sicrhau bod plant unigol yn gwneud cynnydd da. |

**Cwestiwn 3** – A yw'n glir sut mae'r pedwar diben yn ategu cyflwyno'r cwricwlwm hwn?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Ychydig yn glir | Clir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Teimlwn fod digon o gyfeiriadau uniongyrchol at y pedwar diben yn y ddogfen. Trwy gydol y ddogfen, rhoddir ystyriaeth addas i greu trefniadau a chefnogi dysgu a fydd yn rhoi dysgwyr ar y llwybr tuag at gyflawni'r pedwar diben. Nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol gwneud unrhyw gyfeiriad manylach at y pedwar diben ar hyn o bryd. |

**Cwestiwn 4** – A yw'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y llwybrau datblygiadol?

| Ydyn | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Yn gyffredinol, rydym o'r farn fod y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y llwybrau datblygiadol, gan sefydlu sylfaen ddefnyddiol i ddysgwyr archwilio'r meysydd dysgu wrth iddynt wneud cynnydd. At ei gilydd, mae'r llwybrau datblygiadol yn disgrifio'r sefyllfa ar lefel sy'n briodol yn ddatblygiadol ar gyfer y dysgu a ddisgrifir yn y 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ar gyfer y chwe maes dysgu a phrofiad. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw'r bwriad yn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig am Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, sef: "sicrhau bod dysgwyr, fel dinasyddion Cymru ddwyieithog mewn byd amlieithog, yn gallu defnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol" yn cael ei adlewyrchu'n ddigon cryf nac eglur. Teimlwn y gellid cryfhau hyn ymhellach, er enghraifft trwy gynnwys cyfeiriad uniongyrchol at ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'r Gymraeg ar draws yr holl lwybrau, ac yn enwedig y llwybrau 'Perthyn' a 'Chyfathrebu'. |

**Cwestiwn 5** – Ydych chi'n gallu gweld sut bydd cyflwyno'r cwricwlwm hwn yn sicrhau dilyniant plant o'r llwybrau datblygiadol trwodd i'r disgrifiadau dysgu yng ngham dilyniant 1?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb.**

Credwn fod y ddogfen yn gwneud y cyswllt rhwng y llwybrau datblygiadol a'r disgrifiadau dysgu yng ngham dilyniant 1 yn glir. Dylai cyflwyno'r cwricwlwm hwn sicrhau bod plant yn gallu bod yn rhydd i ddysgu ar eu cyflymder eu hunain, ac atgyfnerthu eu dysgu dros gyfnod. Teimlwn fod y pum llwybr datblygiadol yn cysylltu'n agos ag egwyddorion datblygiad plant yn ogystal â'r chwe maes dysgu a phrofiad. Byddai'n fuddiol cynnwys cyfeiriad mwy penodol at y cyd-destun Cymreig ym mhob llwybr datblygiadol. Mae'n glir sut dylai cyflwyno'r cwricwlwm yn briodol sicrhau dilyniant o'r llwybrau datblygiadol trwodd i'r disgrifiadau o ddysgu ar gam dilyniant 1 ar gyfer yr holl blant.

**Cwestiwn 6** – A yw diben y llwybrau datblygiadol yn cael ei esbonio'n glir?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Ychydig yn glir | Clir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |

**Esboniwch eich ateb.**

Rydym yn meddwl bod y ddogfen yn esbonio diben y llwybrau datblygiadol yn dda, ac yn creu cysylltiadau priodol â datblygiad plant a cham dilyniant 1 y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n glir fod y pum llwybr datblygiadol yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn dibynnu ar ei gilydd, gan alluogi plant i ddatblygu ar eu cyflymder eu hunain. Mae pwysigrwydd mabwysiadu dull cyfannol o addysgu a dysgu i sicrhau cynnydd pwrpasol trwy'r llwybrau datblygiadol hyn hefyd yn glir yn y ddogfen.

**Cwestiwn 7** – A oes yna unrhyw beth ar goll o'r datganiadau yn y llwybrau datblygiadol?

| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Os 'oes', nodwch.**

Byddai'n fuddiol cynnwys cyfeiriad mwy penodol at y cyd-destun Cymreig ym mhob llwybr datblygiadol.

**Cwestiwn 8** – A yw'r llwybrau datblygiadol yn gynhwysol ar gyfer pob un o'r plant?

| Ydyn | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Credwn fod y ddogfen yn ei gwneud yn glir fod y cwricwlwm wedi cael ei gynllunio i gefnogi datblygiad cyfannol pob plentyn, ac yn cydnabod yr amrywiad yn eu pwyntiau mynediad a'u hanghenion.  Mae'r llwybrau datblygiadol wedi eu seilio ar egwyddorion allweddol datblygiad plant sy'n cefnogi cyflwyno cwricwlwm sy'n ddatblygiadol briodol ar gyfer plant o bob oedran, gallu a dawn. |

**Cwestiwn 9** – A yw rolau'r ymarferwr, yr amgylchedd a'r profiadau yn cael eu hesbonio'n glir?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Ychydig yn glir | Clir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Rydym yn meddwl bod rôl yr ymarferwr yn glir, a bod y ffordd y mae wedi ei hysgrifennu yn adlewyrchu'n dda fod y cwricwlwm hwn wedi cael ei lunio ar y cyd gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr.<br><br>Mewn ychydig o fannau, rydym yn meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol esbonio termau cyn eu cyflwyno.  Er enghraifft, Adran 8.3, sy'n esbonio bod dysgu dilys yn dod yn ddiweddarach yn y ddogfen na'r cyfeiriad cyntaf ato yn Adran 6.<br><br>Defnyddir y gair 'sgaffald' ('scaffold') trwy'r adran hon, ac rydym yn meddwl tybed a oes angen ei esbonio ymhellach i wneud y bwriad yn gwbl glir.<br><br>Gallai fod yn fuddiol creu cysylltiadau clir rhwng y ddogfen hon a'r ddogfen Agor Llwybrau, yn enwedig rôl y galluogwyr. |

**Cwestiwn 10** – A yw'r cyswllt rhwng y llwybrau a rolau'r ymarferwr, yr amgylchedd a'r profiadau yn cael ei esbonio'n glir?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Ychydig yn glir | Clir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Rydym yn meddwl bod y cyswllt rhwng y llwybrau a rolau'r ymarferwr, yr amgylchedd a'r profiadau yn amlygu eu hunain yn gryf yn nogfen y cwricwlwm. Cefnogir hyn yn dda gan y golofn 'mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei wella gan oedolion sydd....' ac mae'n cysylltu'n dda â'r adran ehangach ar rôl yr ymarferwyr, profiadau difyr ac amgylcheddau effeithiol. |

**Cwestiwn 11** – A yw'r cwricwlwm hwn yn esbonio'n glir sut bydd y llwybrau datblygiadol yn cefnogi datblygu'r medrau trawsgwricwlaidd gorfodol?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Ychydig yn glir | Clir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Credwn fod cyfeirio at elfennau'r medrau trawsgwricwlaidd gorfodol trwy gydol adran 'Rwy'n dysgu' y llwybrau datblygiadol yn cefnogi'r ddealltwriaeth y bydd y medrau gorfodol yn treiddio trwy waith y lleoliad mewn ffordd gyfannol sy'n cefnogi chwarae a dysgu chwareus. Yn ychwanegol, mae'r paragraff rhagarweiniol i adran 9 yn gwneud hyn yn glir. Byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at y 'camau ABC' hefyd i gynorthwyo disgyblion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i ddatblygu eu medrau trawsgwricwlaidd cyn cam dilyniant 1. |

**Cwestiwn 12** – A yw'n glir y dylid ymgorffori datblygu'r medrau trawsgwricwlaidd gorfodol o fewn arfer gyfannol ar draws y cwricwlwm cyfan?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Ychydig yn glir | Clir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Credwn fod y paragraff rhagarweiniol i adran 9, medrau trawsgwricwlaidd, yn ei gwneud yn glir fod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn fedrau gorfodol ar draws y cwricwlwm cyfan, ac y dylid eu hymgorffori'n gadarn yn ymarferol. Mae'r adran hon yn disgrifio'n fanwl y medrau y mae angen i blant eu datblygu fel rhan o'r dilyniant yn eu dysgu. Mae'r esboniad manwl ar gyfer datblygu pob medr trawsgwricwlaidd, ynghyd ag enghreifftiau pwrpasol o sut gallent gael eu datblygu a'u cefnogi gan ymarferwyr, yn hynod ddefnyddiol. Yn ychwanegol, mae'r cyswllt uniongyrchol rhwng y camau cynyddrannol sy'n arwain at gam dilyniant 1 a cham dilyniant 1 ei hun yn darparu canllawiau defnyddiol ac enghreifftiau pwrpasol ar gyfer ymarferwyr. |

**Cwestiwn 13** – I ba raddau y mae'r datganiadau cynyddrannol ar gyfer y medrau trawsgwricwlaidd gorfodol yn fuddiol o ran cynorthwyo ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn datblygu'r medrau hyn?

| Ddim yn fuddiol o gwbl | Ychydig yn fuddiol | Gweddol fuddiol | Buddiol iawn | Eithriadol o fuddiol |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Rydym yn meddwl ei bod yn briodol cynnwys y datganiadau cynyddrannol hyn. Teimlwn y bydd hyn yn cynorthwyo ymarferwyr i ystyried y ffordd y mae plant yn datblygu medrau penodol dros gyfnod. Mae'r datganiadau cynyddrannol sy'n arwain at gam dilyniant 1 o fewn y Cwricwlwm i Gymru yn debygol o gael eu croesawu gan ymarferwyr. |

| |
|---|
| Mewn mannau, teimlwn y dylid rhoi ystyriaeth bellach i gryfhau camau cynyddrannol sy’n arwain at gam dilyniant un, yn enwedig o ran y Gymraeg. |

**Cwestiwn 14** – Pe bai unrhyw wybodaeth ychwanegol yn fuddiol, beth fyddai’r wybodaeth honno?

| |
|---|
| Gallai fod yn ddefnyddiol ystyried camau cynyddrannol ychwanegol sy’n arwain at gam dilyniant 1, yn enwedig ar gyfer medrau cyfathrebu Cymraeg i amlygu’r gwahaniaethau rhwng caffael iaith yn Gymraeg a Saesneg. |

**Cwestiwn 15** – I ba raddau y caiff swyddogaethau arsylwi ac asesu ar wahân, yn ogystal â’r cyswllt rhyngddynt, eu hesbonio’n glir?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Ychydig yn glir | Clir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Mae pwysigrwydd arsylwi yn glir yn y ddogfen. Rhoddir pwyslais addas ar ddod i adnabod plant yn dda, er y gallai’r ymadrodd ‘dealltwriaeth fanwl o bob plentyn’ ar dudalen 47 annog ymarferwyr i ganolbwyntio ar gofnodi gwybodaeth yn hytrach na datblygu darlun cyflawn o’r plentyn. Mae’r adran yn esbonio’n glir sut gall arsylwi fod o fudd i ymarferwyr i addasu darpariaeth er mwyn annog dysgu unigoledig. Mae’r ddogfen yn cyfeirio at ystod o dechnegau arsylwi, ac er ein bod yn gwerthfawrogi y gallai rhestru’r ystod yma fod â chanlyniadau anfwriadol a gyrru ymddygiadau mewn ffordd ddi-fudd, teimlwn y byddai ychydig o gyfeiriadau at dechnegau yn ddefnyddiol o bosibl fel cyswllt â modiwlau hyfforddi Llywodraeth Cymru. Mae swyddogaeth a phwysigrwydd asesu yn glir hefyd, fel y mae’r cysylltiad pwysig rhwng y ddwy elfen. Yn yr adran hon, teimlwn fod y cwestiynau myfyriol sydd wedi eu cynnwys ar gyfer ymarferwyr ac arweinwyr yn ymarferol a buddiol. |

**Cwestiwn 16** – I ba raddau y mae’r adran hon ar ymestyn arfer yn fuddiol?

| Ddim yn fuddiol o gwbl | Ychydig yn fuddiol | Gweddol fuddiol | Buddiol iawn | Eithriadol o fuddiol |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Teimlwn fod yr adran hon yn arbennig o ddefnyddiol i gynorthwyo ymarferwyr i fyfyrio ar eu harfer eu hunain. Mae’n ategu ac yn cefnogi arfer gref yn y blynyddoedd cynnar. Bydd rhoi ystyriaeth briodol i’r elfennau hyn yn helpu ymarferwyr i ddatblygu eu darpariaeth ar gyfer pob plentyn unigol. Caiff y testun esboniadol cryno a’r diffiniadau clir eu cefnogi gan ystod o gwestiynau myfyriol defnyddiol i hyrwyddo trafodaeth. |

**Cwestiwn 17** – Pe bai unrhyw wybodaeth ychwanegol yn fuddiol yn yr adran hon, beth fyddai'r wybodaeth honno?

| |
|---|
| Gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys technegau trochi ar gyfer datblygu medrau Cymraeg plant. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad thematig, 'Caffael yr iaith Gymraeg', Estyn 2021 sy'n cynnwys adnoddau, arweiniad ac enghreifftiau defnyddiol o arfer dda o ran caffael yr iaith Gymraeg yn gynnar. Gellid defnyddio hyn i helpu ymarferwyr. |

**Cwestiwn 18** – I ba raddau y mae'r cwestiynau myfyriol sydd wedi eu cynnwys trwy gydol y cwricwlwm hwn yn fuddiol o ran:

i) cefnogi cynllunio?

| Ddim yn fuddiol o gwbl | Ychydig yn fuddiol | Gweddol fuddiol | Buddiol iawn | Eithriadol o fuddiol |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ✓ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Mae'r cwestiynau myfyriol trwy gydol y ddogfen yn cynorthwyo ymarferwyr i gynllunio eu cwricwlwm. Mewn rhai adrannau, ceir cwestiynau myfyriol defnyddiol a chynhwysfawr ar gyfer ymarferwyr ac arweinwyr a fydd yn eu helpu i werthuso eu harfer a chefnogi eu cynllunio, er enghraifft yn yr adrannau ar asesu a llythrennedd corfforol. Fodd bynnag, gallai fod yn fuddiol darparu mwy o gwestiynau myfyriol mewn mannau eraill i gynorthwyo ymarferwyr â chynllunio, er enghraifft yn dilyn yr adran ar fedrau trawsgwricwlaidd. |

ii) sbarduno ymarferwyr i ystyried eu gwybodaeth a'u medrau?

| Ddim yn fuddiol o gwbl | Ychydig yn fuddiol | Gweddol fuddiol | Buddiol iawn | Eithriadol o fuddiol |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Mae'r cwestiynau myfyriol yn ffordd ddefnyddiol i ymarferwyr ystyried eu medrau eu hunain a nodi ffyrdd o wella eu harfer. Mewn llawer o achosion, mae'r cwestiynau, er enghraifft yn yr adran ar drefniannau, yn galluogi ymarferwyr i fyfyrio ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain o drefniannau. Teimlwn fod lle i ddatblygu cwestiynau myfyriol ymhellach mewn adrannau eraill. Er enghraifft, byddai'n ddefnyddiol cynnwys cwestiynau myfyriol ar gyfer ymarferwyr o amgylch eu dealltwriaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a pha mor dda y maent yn deall y dulliau gorau ar gyfer delio â phlant sydd wedi profi trawma. |

iii) cefnogi gwelliant parhaus yn ymarferol?

| Ddim yn fuddiol o gwbl | Ychydig yn fuddiol | Gweddol fuddiol | Buddiol iawn | Eithriadol o fuddiol |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

Mae'r cwestiynau myfyriol yn debygol o fod yn fuddiol i arweinwyr ac ymarferwyr o ran cefnogi gwelliant parhaus yn ymarferol. Teimlwn, fel y nodir uchod, y byddai'n fuddiol datblygu'r defnydd o gwestiynau myfyriol ymhellach mewn rhai o feysydd y cwricwlwm.

**Cwestiwn 19** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cwricwlwm hwn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Nid ydym yn teimlo bod y cwricwlwm yn rhoi pwyslais digon cryf ar ddatblygu'r iaith Gymraeg, ac nid yw'n amlinellu sut mae'n cefnogi ac yn gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg 2050. Nid yw'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth ddigon da i wahanol gyd-destunau datblygu'r iaith Gymraeg ym mhob ardal o Gymru, er enghraifft defnyddio technegau trochi i ddatblygu medrau Cymraeg plant o gartrefi lle siaredir Saesneg yn bennaf. Yn gyffredinol, teimlwn y gellid cryfhau cyd-destun Cymreig y cwricwlwm hwn mewn llawer o feysydd, er enghraifft wrth hyrwyddo hunaniaeth Gymreig plant yn yr adran Perthyn.

**Cwestiwn 20** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y cwricwlwm hwn er mwyn cael:

i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Teimlwn y dylid cryfhau'r cwricwlwm i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol y Gymraeg. Gallai fod yn fuddiol archwilio'r modd y mae lleoliadau'n defnyddio technegau trochi yn effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth a defnydd plant o'r Gymraeg, yn enwedig o gartrefi lle nad y Gymraeg yw iaith yr aelwyd. Teimlwn fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i ddilyniant medrau Cymraeg ar wahân i'r ffocws ar ddatblygu dealltwriaeth plant o dreigladau Cymraeg yng ngham dilyniant 1. Rydym wedi cyfeirio o'r blaen at y gofyniad am gamau cynyddrannol ychwanegol sy'n arwain at gam dilyniant 1 yn ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn.<br><br>Hefyd, byddai'n fuddiol darparu cyfleoedd i ymarferwyr fyfyrio ar eu medrau Cymraeg eu hunain.<br><br>Mae cyfieithiad Cymraeg y cwricwlwm yn ddryslyd mewn mannau ac nid yw'n defnyddio geirfa sy'n hawdd ei deall ac ymadroddion a ddefnyddir yn aml yn y sector. Gallai hyn rwystro arweinwyr ac ymarferwyr rhag defnyddio'r fersiwn Gymraeg. |

**Cwestiwn 21**– Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt.

| |
|---|
| Gwall teipio? Tudalen 12 'Appropriate delivery of this curriculum should ensure progression from the pathways through to the descriptions of learning at progression step 1 for all children in our setting.' Settings?<br><br>Tudalen 41 'Digital competence should not be confused with information and communication technology (ICT)' – mae hyn yn ffeithiol anghywir a byddai'n well ei ddileu yn gyfan gwbl i osgoi dryswch.<br><br>Tudalen 42 'identify digital images of themselves and familiar people.' Dylai hyn ddweud 'myself' gan fod bôn y frawddeg o safbwynt y plentyn.<br><br>Tudalen 45 'follow one or two-step instructions to undertake a process e.g. programmes a toy to move forwards/backwards etc.' Dylai hyn ddweud 'programme' gan fod bôn y frawddeg eto o safbwynt y plentyn. |

Mae atebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐